# Lle i berthyn

## Ein Strategaeth hyd at 2035



Scouts
Cymru

Scouts

# Edrych i'r dyfodol

Pam mae angen lle i berthyn ar bobl ifanc ............. 03

Strategaeth ar gyfer dyfodol mwy disglair ............. 05

Sut mae Sgowtiaid yn newid bywydau ................. 07

Ledled ein cymunedau ........... 08

Sut i ddefnyddio'r strategaeth hon ...................... 09

Lle i berthyn
Ein Strategaeth hyd at 2035 ....... 10
- Gwerthoedd
- Gweledigaeth
- Diben
- Pileri
- Canlyniadau

Llunio'r naw mlynedd nesaf ............................ 19

Ar hyd a lled ein Cenhedloedd a Thramor .............. 20

Rhan o deulu byd-eang o Sgowtiaid ................................ 21

Sut y gwnaeth pobl ifanc lunio ein strategaeth .................. 25

Cynaliadwyedd ............................ 26

# Pam mae angen lle i berthyn ar bobl ifanc

Mae gan y genhedlaeth hon gymaint o addewid. Ond cymaint o bwysau hefyd. Mae nifer yn teimlo'n ynysig ac yn unig. Nid oes gan bron i hanner ohonynt oedolyn dibynadwy y gallan nhw siarad ag ef/hi. Nid yw bron i 40% yn cael cyfle i wneud ffrindiau newydd. Mae mwy na 7 o bob 10 yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser rhydd ar sgriniau.

Gall natur a'r awyr agored deimlo'n anghysbell ac yn anhygyrch. Gall yr ysgol ddod â phwysau a disgwyliadau hefyd.

tl'n pobl ifanc, mae'n teimlo fel pe bai'r byd yn rhwygo ei hun yn ddarnau - gydag argyfwng hinsawdd sy'n dyfnhau; wedi'i ddifrodi ymhellach gan wrthdaro a rhaniad. Mae'n ymddangos bod lleisiau eithafol yn boddi'r gweddill, gan chwyddo ofn a diffyg ymddiriedaeth.

**Dyna pam mae angen trydydd lle ar bobl ifanc - rhywle nad yw'n ysgol na chartref lle gallan nhw ddod o hyd iddyn nhw eu hunain a bod yn nhw eu hunain. Lle maen nhw'n cael eu gweld, eu clywed a'u derbyn am bwy ydyn nhw. Lle diogel gydag oedolion dibynadwy.**

Mae angen lle ar bobl ifanc lle gallan nhw fynegi eu hunain heb ofn barn na chywilydd.

Sgowtiaid yw'r lle hwnnw: cymuned o garedigrwydd, lle mae hwyl a chyfeillgarwch yn rhedeg trwy bopeth. Cymuned leol sydd hefyd yn eich cysylltu'n rhyngwladol, â mudiad o fwy na 60 miliwn o Sgowtiaid. Lle nad yw sefyll ar y podiwm yn bopeth. Mae Sgowtiaid yn lle i wneud eich gorau, nid bod y gorau.

**Mae'r strategaeth hon yn helpu pobl ifanc i ddod o hyd i'r lle hwnnw.**

Nid yw **40%** o bobl ifanc yn cael cyfle i wneud ffrindiau newydd

Mae **7 o bob 10** o bobl ifanc yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser rhydd ar sgriniau.



# Pam nawr?

Mae argyfwng, nid yn unig o ran iechyd meddwl ac unigrwydd ymhlith pobl ifanc, ond o bryder am y dyfodol hefyd. Dyna pam mae angen lle i berthyn ar bobl ifanc yn fwy nag erioed.



**Mae bron i hanner (44%) y bobl ifanc a holwyd rhwng 11 a 18 oed yn teimlo'n unig yn rheolaidd.[+]**



**53%** Mae 53% yn poeni am ddod o hyd i swydd.*

**45%** Mae 45% o bobl ifanc yn dweud eu bod yn poeni am eu lles meddyliol.*

**63%** Mae 63% yn poeni am eu lles corfforol.*

> "Er bod y byd digidol yn cynnig cysylltiadau diddiwedd, weithiau rwy'n teimlo unigrwydd rhyfedd, tawel. Yr hyn sy'n wirioneddol boenus yw'r diffyg lleoedd i fod. Y tu allan i'r ysgol, does dim llawer i fi a fy ffrindiau ei wneud wyneb yn wyneb. Mae angen lleoedd i dreulio amser, gwneud ffrindiau, ac a dweud y gwir, cael hwyl... mae'r ffactor cymunedol wyneb yn wyneb hwnnw wedi'i golli."
>
> – Person ifanc o Hastings[+]





> **"Pan mae pobl ifanc yn teimlo bod ganddynt le ble maen nhw'n perthyn, maen nhw'n ymddwyn fel eu bod yn perthyn."**
>
> – Person ifanc o Newcastle[+]

[+] Adroddiad Youth Matters: State of the Nation 2025 DCMS, o arolwg o 25,000 o bobl ifanc.

*Adroddiad Good Childhood The Children's Society (o arolwg, yn cynnwys 2,000 o blant a phobl ifanc y DU rhwng 10 a 17 oed).



# Strategaeth ar gyfer dyfodol mwy disglair

**Bydd ein Strategaeth hyd at 2035 yn ein helpu i gadw'r ffocws ar yr hyn a wnawn orau – rhoi lle i bobl ifanc berthyn a rhoi'r sgiliau iddynt ffynnu.**

Mae wedi'i llunio gan 28,000 o bobl y tu mewn a'r tu allan i'r Sgowtiaid, gan gynnwys cefnogwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau. Mae'n cynnwys mwy na 3,000 o Sgowtiaid ifanc a wnaeth i'w lleisiau gael eu clywed, yn enwedig yn Fforwm Ieuenctid y DU 2025.

Mae'n strategaeth ar gyfer pobl ifanc, wedi'i llunio gan bobl ifanc. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod eisiau i'n cefnogaeth eu grymuso i lywio dyfodol sy'n anodd ei ddarogan. Dyma amser i edrych yn ehangach hefyd, gan ymateb i anghenion byd sy'n newid yn barhaus a chymdeithas sydd wedi'i pholareiddio fwyfwy. Mae angen i ni baratoi pobl ifanc ar gyfer byd â geo-wleidyddiaeth llai sefydlog a newidiadau cyflym wedi'u tanio gan dechnoleg fel AI. Yn fwy nag erioed, mae angen y dewrder ar bobl ifanc i ddysgu ac addasu pan fo angen.

**Ni fu'r ymdeimlad o berthyn mae Sgowtiaid yn ei roi erioed yn bwysicach. Rydym ni'n falch o groesawu pob person ifanc waeth beth fo'i ryw, hil, cefndir neu grefydd. Rydym ni'n sefyll dros undod, cytgord ac yn credu bod ein gwahaniaethau'n ein gwneud yn gryfach.**

Yn anad dim, mae angen i ni gadw pobl ifanc wrth wraidd popeth a wnawn. Mae angen i ni wrando ac ymateb i'w hanghenion. Rydym ni'n falch ein bod yn fudiad i bobl ifanc - strategaeth ar gyfer dyfodol mwy disglair wedi'i llunio ganddyn nhw yw hon.

Rydym ni'n falch o fod yn fudiad ar gyfer pobl ifanc - mae hon yn strategaeth ar gyfer dyfodol mwy disglair sydd wedi'i llunio ganddyn nhw.

Trowch i dudalen 25 i glywed gan rai o'n pobl ifanc.

> **"Mae hon yn strategaeth a luniwyd gan 28,000 o bobl yn y Sgowtiaid a thu hwnt, gan gynnwys mwy na 3,000 o Sgowtiaid ifanc a wnaeth i'w lleisiau gael eu clywed.."**

# Grymuso pobl ifanc

**Mae Sgowtiaid yn cefnogi bron i hanner miliwn o bobl bob wythnos. Mae'n lle i fod yn chi'ch hun a bod yn rhan o rywbeth. Nod ein strategaeth newydd yw helpu hyd yn oed mwy o bobl i ddod o hyd i le i berthyn.**

Fel Sgowtiaid, rydym ni ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd. Rydym ni wedi profi hyn gyda'n strategaeth ddiwethaf, Sgiliau am Oes. Drwy gefnogi ein gilydd fel tîm, rydym ni wedi tyfu, wedi dod yn fwy cynhwysol, wedi'n llunio fwy gan bobl ifanc ac wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein cymunedau.

Ar hyd a lled y DU, yn y Cenhedloedd, a Thramor, rydym ni wedi cyflawni cymaint - o lywio heriau pandemig 2020-21, lansio Squirrels (sydd bellach yn cefnogi mwy na 25,000 o bobl ifanc) i wella'r ffordd rydym ni'n croesawu ac yn cefnogi ein gwirfoddolwyr. Ers 2018, dechrau'r strategaeth ddiwethaf, rydym ni wedi cefnogi ymhell dros filiwn o bobl ifanc.

Rydym ni hefyd wedi dysgu llawer. Mae angen amser, amynedd a chefnogaeth ar newid, wedi'i gydbwyso â'r angen i barhau i gyflwyno Rhaglen ragorol o wythnos i wythnos. Mae angen i ni gadw diogelwch fel ein blaenoriaeth uchaf a gadael lle i'r annisgwyl.

**Yn hanfodol, mae angen i ni ddyblu'r gefnogaeth a roddwn i'n gwirfoddolwyr sy'n gwneud Sgowtiaid yn bosibl.**

Mae Sgowtiaid yn cael eu hedmygu a'u parchu'n eang, gyda dros 85% o ymddiriedaeth ymhlith oedolion y DU (YouGov 2025). Nid yn unig am y ffordd rydym ni'n dod â phobl ynghyd ac yn hyrwyddo'r genhedlaeth nesaf, ond hefyd am fod yn oleuadau disglair ar gyfer gobaith ac undod yn ein cymunedau. Rydym ni'n falch o'r gwerthoedd Uniondeb, Parch, Gofal, Cred a Chydweithrediad sy'n ein rhwymo. Ac rydym ni'n falch o drosglwyddo'r rhain o un genhedlaeth i'r llall.









# Sut mae Sgowtiaid yn newid bywydau

## Pam

### Mae pobl ifanc yn ymuno...

O bob cefndir
yn chwilio am le i berthyn, cyfeillgarwch a chysylltiad.
Maen nhw'n cael croeso i mewn i'r:

- Squirrels
- Beavers
- Cubs
- Scouts
- Explorers
- Network

## Sut

### Profiad...

Ein Rhaglen ar gyfer Plant a phobl ifanc 4-24 oed

- Hwyl
- Cyfeillgarwch
- Antur
- Gwaith tîm
- Helpu eraill
- Cymuned fyd-eang
- Gwirfoddoli
- Perthyn

### Gyda chefnogaeth...

Gwirfoddolwyr gwych

Ein Gwerthoedd
Uniondeb, Parch, Gofal, Cred a Chydweithrediad

## Ein Effaith

### Ennill...

Lle i berthyn

Sgiliau am oes

### Dod yn...

Ddinasyddion gweithgar
Gwirfoddolwyr ysbrydoledig
hapusach,
mwy caredig,
wedi'u cysylltu'n well,
empathig,
gwydn,
mwy cyflogadwy

### Cyfrannu at...

Gymunedau Agosach

Cymdeithas fwy caredig,
fwy cydlynus



# Ar draws ein cymunedau

Rydym ni'n adnewyddu ein hymrwymiad i weithredu'n gymdeithasol a gwneud gwahaniaeth, i'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn ein prosiectau a'r cymunedau maen nhw'n eu helpu. Mae helpu ein cymunedau'n rhan enfawr o'r hyn mae Sgowtiaid yn ei wneud.





**mae Sgowtiaid yn cefnogi pobl ifanc mewn 7,000 o gymunedau ledled y DU, gan gynnwys y rhai mwyaf difreintiedig.**





**Ein Gweledigaeth sy'n gosod ein cyrchfan, ein Diben sy'n tanio ein taith, Ein Pileri sy'n ein cadw ar y trywydd iawn a'n Canlyniadau sy'n disgrifio'r newidiadau rydym ni'n disgwyl eu gweld ar hyd y ffordd.**



# Sut i ddefnyddio'r strategaeth hon

**Meddyliwch am ein strategaeth fel cwmpawd, yn ein tywys i'r dyfodol. Mae'n cynnwys ein Gweledigaeth, ein Diben, ein Pileri a'n Canlyniadau. Gadewch i ni archwilio sut mae'r elfennau hyn yn gweithio gyda'i gilydd.**

## Ein Gweledigaeth

Mae hon yn creu darlun o ble rydym ni eisiau bod a'r effaith rydym ni eisiau ei chael. Mae Ein Gweledigaeth yn uchelgeisiol, yn ysbrydoledig ac yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer popeth a wnawn.

## Ein Diben

Os mai ein Gweledigaeth yw'r hyn rydym ni eisiau ei gyflawni, ein Diben yw pam rydym ni'n bodoli. Dyma'r grym gyrru sy'n bywiogi ein mudiad cyfan.

## Ein Pileri

Dyma graidd yr hyn mae Sgowtiaid yn ei olygu. Mae'r ddau biler hyn, 'Cyflwyno Rhaglen anturus a chynhwysol' a 'Chefnogi ein Gwirfoddolwyr', yn cynrychioli craidd yr hyn a wnawn yn y Sgowtiaid, a'r hyn sydd angen i ni weithio arno i gyflawni ein diben a chyflawni ein gweledigaeth. Maen nhw'n gysylltiedig a rhaid iddyn nhw fod yr un mor gryf â'i gilydd i lwyddo.

## Ein Canlyniadau

Mae canlyniadau'n canolbwyntio ar yr effaith a'r newid rydym ni eisiau eu gweld. Maen  nhw'n disgrifio beth fydd yn wahanol o ganlyniad i'n gwaith. Rydym ni'n mesur cynnydd tuag at y canlyniadau hyn gan ddefnyddio dangosyddion clir, gan ein helpu i olrhain pa mor effeithiol rydym ni'n symud ymlaen a'n galluogi i addasu yn ôl yr angen.

## Sut mae ein Gweledigaeth, Diben, Pileri a Chanlyniadau'n gweithio gyda'i gilydd

Ein Gweledigaeth sy'n gosod ein cyrchfan, ein Diben sy'n tanio ein taith, Ein Pileri sy'n ein cadw ar y trywydd iawn a'n Canlyniadau sy'n disgrifio'r newidiadau rydym ni'n disgwyl eu gweld ar hyd y ffordd. Gyda'i gilydd, maen nhw'n dweud wrthym i ble rydym ni'n mynd, pam, a beth fydd yn wahanol o ganlyniad.

Scouts

# Lle i berthyn:
# Ein Strategaeth hyd at 2035



## Ein Gweledigaeth
Grymuso mwy o bobl ifanc trwy antur, gwaith tîm a gwerthoedd a rennir, i gymryd yr awenau wrth wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y byd.

## Ein Diben
Ymgysylltu a chefnogi pobl ifanc yn weithredol yn eu datblygiad personol, gan eu grymuso i wneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.

**Ein Gwerthoedd** Uniondeb, Parch, Gofal, Cred, Cydweithrediad

## Ein Pileri

### Rhaglen
Cyflwyno Rhaglen anturus a chynhwysol.

### Gwirfoddoli
Cefnogi ein gwirfoddolwyr.

## Ein Canlyniadau
Erbyn 2035 bydd gennym:

1. Mudiad sy'n tyfu ac yn gynhwysol
2. Mwy o bobl ifanc yn ennill sgiliau ac yn arwain newid
3. Gwirfoddolwyr sy'n teimlo'n hyderus, yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi
4. Cymunedau cryfach a gwell eu cysylltiad
5. Mudiad diogel, cynhwysol a chynaliadwy



# Ein Gweledigaeth

Grymuso mwy o bobl ifanc trwy antur, gwaith tîm a gwerthoedd a rennir, i gymryd yr awenau ar wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y byd.



# Ein Diben

Ymgysylltu a chefnogi pobl ifanc yn weithredol yn eu datblygiad personol, gan eu grymuso i wneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.

# Ein Pileri

## Piler 1

### Cyflwyno Rhaglen anturus a chynhwysol

Pan fydd pobl ifanc yn profi perthyn, maent yn fwy tebygol o dyfu, cymryd rhan a pharhau i ymgysylltu. Mae Rhaglen gynhwysol sydd wedi'i gwreiddio yn yr awyr agored, yn llawn antur ac wedi'i seilio yn y gymuned, yn cysylltu pobl ifanc yn lleol ac yn fyd-eang, gan gynnig profiadau iddynt sy'n eu galluogi i ffynnu.

## Piler 2

### Cefnogi ein gwirfoddolwyr

Mae ein gwirfoddolwyr yn wych, ac mae angen mwy ohonyn nhw - wedi'u hyfforddi'n dda, yn hyderus ac wedi'u cefnogi - i wireddu ein Gweledigaeth. Pan fydd ein harweinwyr yn teimlo'n barod ac yn llawn cymhelliant, maen nhw'n gallu grymuso pobl ifanc yn well i gymryd yr awenau.



Erbyn 2035 bydd gennym...

Ein Canlyniadau

# 1. Mudiad sy'n tyfu ac yn gynhwysol

Mae Sgowtiaid yn croesawu mwy o bobl ifanc ac oedolion, yn enwedig o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein mudiad. Rydym ni'n cynnig lle diogel, cynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn. Mae twf yn ystyrlon ac yn gynaliadwy, gan gyrraedd cymunedau newydd, cadw aelodau ac adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas.

Erbyn 2035 bydd gennym...

Ein Canlyniadau

# 2. Mwy o bobl ifanc yn ennill sgiliau ar gyfer bywyd ac yn arwain newid

Mae pob person ifanc yn y Sgowtiaid yn meithrin y sgiliau, y cymeriad a’r hyder sydd eu hangen arnynt i ffynnu. Trwy brofiadau anturus, ymwybyddiaeth fyd-eang a chyfleoedd ystyrlon i arwain, maent yn datblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth a phwrpas. Nid yw pobl ifanc yn cael eu llunio gan Sgowtiaid yn unig; nhw sy’n ei lunio.

Scouts

Erbyn 2035 bydd gennym...

Ein Canlyniadau

# 3. Gwirfoddolwyr sy'n teimlo'n hyderus, yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi

Rydym ni'n denu ac yn cadw mwy o wirfoddolwyr trwy wneud y profiad yn gynhwysol ac yn werth chweil. Maen nhw'n teimlo'n barod ac yn hyderus i gyfrannu mewn ffyrdd hyblyg a boddhaol. Mae gwirfoddoli gyda Sgowtiaid yn cryfhau eu twf personol, yn adeiladu cymuned ac yn cefnogi perthynas hirdymor â'r mudiad.

Erbyn 2035 bydd gennym...

Ein Canlyniadau

# 4. Cymunedau cryfach a gwell eu cysylltiad

Mae Sgowtiaid yn chwarae rhan weladwy a chadarnhaol mewn cymunedau ledled y DU. Yn lleol, mae Sgowtiaid yn adeiladu pontydd rhwng pobl o wahanol gefndiroedd, yn hyrwyddo ymgysylltiad dinesig ac yn creu mannau lle gall pawb berthyn a gwneud gwahaniaeth. Drwy weithredu lleol, mae Sgowtiaid yn cyfrannu at gymdeithas fwy tosturiol a chydlynol.

Scouts

## Erbyn 2035 bydd gennym...

Ein Canlyniadau

# 5. Mudiad diogel, cynhwysol a chynaliadwy

Mae Sgowtiaid wedi'i adeiladu ar sylfeini cryf a sefydlog. Mae'n ddiogel i bob aelod, yn gynhwysol ac yn wydn ei ddyluniad. Gyda chynllunio gofalus, llywodraethu da a rheoli adnoddau cadarn, rydym ni'n addasu i newid ac yn cyflawni'n gyson dda.

# Y llwybr ymlaen: Llunio'r naw mlynedd nesaf


I droi strategaeth yn gyflawniad, mae gennym ni dri chynllun. Bydd y rhain yn mynd â ni ar daith drwy naw mlynedd y strategaeth i gyflawni ein Gweledigaeth.

**1** 2026 - 2029 → **2** 2029 - 2032 → **3** 2032 - 2035

**2026 - 2035**

Bydd y cyntaf o'n cynlluniau yn rhoi tri maes ffocws i ni ar gyfer ein mudiad dros y tair blynedd nesaf: **Rhaglen**, **Gwirfoddoli a Chefnogaeth**.

Mae'r strategaeth hon yn rhoi cyfeiriad i ni deithio. Ond ni fydd llwyddiant yn dod o eiriau yn unig. Bydd yn dod o'r hyn a ddewiswn ei wneud, gyda'n gilydd, yn genedlaethol ac yn lleol. Pob naid fach yn ansawdd ein Rhaglen. Pob cyfle a roddwn i bobl ifanc. Pob penderfyniad i gefnogi gwirfoddolwyr yn well. Ymdrech ar y cyd fydd yn cyflawni ein Gweledigaeth.



Scouts

## Ein ffocws 2026-2029

### Rhaglen
Cyflwyno Rhaglen hwyliog, berthnasol a chynhwysol yn ddiogel i bawb.

### Gwirfoddoli
Gwella gwirfoddoli, gan sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u cymell.

### Cefnogaeth
Bod yn fudiad sy'n tyfu, yn gynaliadwy ac yn effeithiol.

# Ar hyd a lled ein Cenhedloedd a Thramor

Rydym ni'n falch o helpu pobl ifanc i ddod o hyd i le i berthyn ar draws Cenhedloedd y DU a Thramor. Mae ein timau ymroddedig yn cwrdd ag anghenion pobl ifanc yn y Cenhedloedd a Thramor. Rydym ni i gyd yn dathlu ein gwahaniaethau lleol wrth fod yn rhan o deulu Sgowtiaid y DU.

Credwn mai cryfder ein teulu Sgowtiaid yw ei amrywiaeth a'r ffordd mae wedi'i ymgorffori mewn cymunedau lleol.

O helpu Sgowtiaid i gyrraedd copa'r Wyddfa yng Nghymru, i fynychu'r Jamborette Rhyngwladol yn Blair Atholl, yr Alban, Crawfordsburn yng Ngogledd Iwerddon, ymweld â Pharc Gilwell yn Lloegr, neu ddathlu trosglwyddo'r Goleuni Heddwch Rhyngwladol yn Awstria, rydym ni'n rhoi cyfleoedd i bawb.

> **"Mae cryfder ein teulu Sgowtiaid yn ei amrywiaeth a'r ffordd mae wedi'i ymgorffori mewn cymunedau lleol."**

Scouts Scotland | Scouts Cymru | Scouts N.I. | Scouts England | Scouts Overseas











# Rhan o deulu byd-eang o Sgowtiaid

**Rydym ni'n rhan o deulu byd-eang o dros 60 miliwn o Sgowtiaid. Gyda'n gilydd fel Sgowtio Byd-eang, rydym ni'n ffurfio un mudiad, wedi ymrwymo i weithio tuag at:**

**Byd heddychlon a chynhwysol**
Bydd Sgowtio yn gweithio i greu byd heddychlon a chynhwysol, gan ddileu gwahaniaethu a sicrhau cyfleoedd diogel a chyfartal i bawb.

**Byd wedi'i lunio gan ieuenctid**
Bydd Sgowtio yn gweithio i greu byd wedi'i lunio gan ieuenctid sy'n torri rhwystrau, yn adeiladwyr pontydd, yn gwneud penderfyniadau gwybodus ac yn ddinasyddion gweithredol cyfrifol, wedi'u grymuso gan gymwyseddau a gwerthoedd craidd a ddatblygwyd trwy Sgowtio.

**Byd cynaliadwy**
Bydd Sgowtio yn gweithio i adeiladu cymunedau gwydn trwy addysgu a grymuso pobl ifanc i addasu, lliniaru a chymryd camau gweithredu ar newid hinsawdd, llygredd a chadwraeth bioamrywiaeth, gan gydbwyso datblygiad economaidd, gwelliant cymdeithasol a'r amgylchedd.







**'Gyda'n gilydd, rydym ni'n gweithio tuag at fyd heddychlon a chynhwysol.'**

Scouts

# Rydym ni'n lle i...

**ddysgu**
**tyfu**
**archwilio**
**datblygu**
**ffynnu**
**dod o hyd i ffrindiau**
**dod o hyd i chi**
**bod yn chi**
**perthyn**

**'Mae Sgowtiaid yn lle i wneud eich gorau, nid bod y gorau.'**



# Dyma'r amser i...

- **Rymuso**
  pobl ifanc gyda sgiliau i ffynnu a lle i berthyn.
- **Gweithio gyda'n gilydd**
  as a team to achieve more than we can alone.
- **Dathlu**
  young people, their promise and achievements.
- **Teimlo'n dda**
  amdanom ni ein hunain.
- **Hyrwyddo**
  a chefnogi ein gwirfoddolwyr.
- **Mynd allan i'r awyr agored**
  a mwynhau antur.
- **Gwneud gwahaniaeth cadarnhaol**
  yn y byd.
- **Helpu pobl eraill**
  a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein cymunedau.



Ayesha Karim, Arweinydd Ieuenctid y DU 2023-2026

# Sut y lluniodd pobl ifanc ein strategaeth

**Lleisio barn, sbarduno newid.**

Arweiniwyd Fforwm Ieuenctid y DU 2025 gan Dîm Ieuenctid y DU i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn llunio ein strategaeth.

Trwy weithgareddau hunanarweiniol lleol a phedwar digwyddiad wyneb yn wyneb a gynhaliwyd yn ystod mis Mawrth ac Ebrill 2025, rhannodd pobl ifanc syniadau, dyheadau a phryderon ar gyfer y dyfodol, gan adeiladu ar y strategaeth ‘Sgiliau am Oes’ a hyrwyddo ein hymrwymiad i Sgowtio wedi’i lunio gan ieuenctid.

Mynychodd dros 500 o bobl ifanc 10–24 oed y digwyddiadau wyneb yn wyneb, gyda dirprwyaethau yn cynrychioli bron pob Sir, Ardal neu Ranbarth ar draws y pedair Cenedl, yn ogystal â Thramor, gan adlewyrchu cydbwysedd cryf o adrannau, oedrannau a rhywiau. Cyfrannodd 1,000 o bobl ifanc eraill 4–24 oed at y gweithgareddau hunanarweiniol. Dangoson nhw eu bod yn ddatryswyr problemau eithriadol, gan gynnig mewnwelediadau ffres i gyflawni ein strategaeth newydd.

Datgelodd y Fforwm weledigaeth ar gyfer Sgowtiaid sy’n ddiogel, anturus, ymarferol, cynhwysol, dan arweiniad pobl ifanc, wedi’u cefnogi gan arweinwyr gwirfoddol ymroddedig. Daeth gweithgareddau awyr agored, sgiliau bywyd, ac arweinyddiaeth ieuenctid i’r amlwg fel blaenoriaethau allweddol, gyda rhai cynrychiolwyr yn gweld y rhain fel galluogwyr i gryfhau lles meddyliol, hybu effaith gymunedol, a denu aelodau newydd.

Roedden nhw hefyd eisiau gweld gwirfoddoli haws, cysylltiadau cymunedol cryfach, a chydbwysedd rhwng traddodiad a chynnydd.

Gan edrych ymlaen at 2035, eu prif nodau ar gyfer Sgowtiaid oedd:

- datblygu gwobrau a sgiliau bywyd,
- hyrwyddo cynhwysiant a hygyrchedd,
- ehangu mentrau dan arweiniad ieuenctid,
- annog twf,
- meithrin cysylltiadau cryfach; a
- gweld Sgowtiaid fel man cychwyn ar gyfer uchelgeisiau.

Roedd ein pobl ifanc eisiau mannau diogel, heb farn, wedi’u cefnogi gan wirfoddolwyr dibynadwy, wedi’u hyfforddi’n dda. Cadarnhaodd Fforwm Ieuenctid y DU 2025 fod ein dyfodol yn heriol ond yn ddisglair, wedi’i yrru gan bobl ifanc angerddol sy’n awyddus i’w lunio.



Sgowtiaid yn cymryd rhan yn Fforwm Ieuenctid y DU 2025





# Lleisiau pobl ifanc

‘Llwyddiant yw dod yn bwy rydw i eisiau bod a gwneud fy hun yn falch.’

‘Mae angen lle arnaf i ddianc iddo pan fydd bywyd yn mynd yn anodd.’

‘Mae Sgowtiaid yn meithrin fy hyder a’m cred ynof fy hun.’

Mae Sgowtiaid yn rhoi ymdeimlad o gymuned a pherthyn, cefnogaeth ac arweiniad i mi, a’r sgiliau sydd eu hangen arnaf i lwyddo.’

‘Mae fy arweinwyr yn dal i ddweud wrtha i y galla i ei wneud, hyd yn oed os ydw i’n dweud na allaf. Maen nhw’n credu ynof i. Maen nhw yno pan fydd angen rhywun i’m codi.’

‘Llwyddiant yw bod yn hapus ac yn gyfforddus mewn bywyd, a gwybod eich hunanwerth eich hun.’

Dyfyniadau o Fforymau Ieuenctid Sgowtiaid y DU, 2025



Scouts

‘Rhowch y sgiliau, y lle, a’r gred i ni — ac fe wnawn ni’r gweddill!’

# Cynaliadwyedd

Scouts

**Rydym wedi ymrwymo i:**

## Cynaliadwyedd amgylcheddol

Lleihau ein hôl troed amgylcheddol, hyrwyddo ymwybyddiaeth a gweithredu ar yr hinsawdd, a modelu stiwardiaeth gyfrifol o'r blaned.

## Cynaliadwyedd cymdeithasol

Sicrhau cynhwysiant, cydraddoldeb a lles o fewn Sgowtiaid ac yn y cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu, creu mudiad lle mae pawb yn teimlo'n gartrefol, yn ddiogel ac wedi'u grymuso i ffynnu.

## Cynaliadwyedd economaidd a sefydliadol

Gwneud yn siŵr bod ein cyllid, strwythurau, sylfaen gwirfoddolwyr a modelau cyflawni'n wydn, yn cael eu cefnogi'n dda ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

Rydym ni'n credu mewn adeiladu mudiad sy'n para, yn gallu addasu i newid, yn cyfrannu at fyd gwell ac yn darparu profiadau cyson o ansawdd uchel i genedlaethau i ddod.

# Mae hon yn strategaeth ar gyfer pobl ifanc, wedi'i llunio gan bobl ifanc.

Scouts









# Helpwch ni i roi lle i fwy o bobl ifanc berthyn.

Scouts
Cymru


ScoutsCymru
Castle House
Southern Street
Caerphilly
CF83 1LH

01446 795277
admin@scoutscymru.org.uk
scoutscymru.org.uk
@scoutscymru
facebook.com/ScoutsCymru








Copyright © Scouts 2026 ScoutsCymru Charity number 522572